# PEIDIWCH Â BEIO AR GAM!

**Mae beio mudwyr yn hen dwyll.**
**Mae'n ffurf ar fwlio sy'n awgrymu mai mudwyr yw achos yr anhawsterau sy'n ein hwynebu ni i gyd.**

## NID MUDWYR YW'R ACHOS DROS:

### 1 ....... ddiffyg gwaith sicr a chyflog da

Mae'r cwmniau mawr wedi buddsoddi mewn gwledydd eraill neu'n cadw eu helw mewn cyfrifon tramor yn lle buddsoddi yng Nghymru. Mae deddfau gwrth-undebol pob llywodraeth wedi amharu ar allu Undebau Llafur i ymladd dros dal gwell.

### 2 ......brinder tai

Does dim hawl gan Gynghorau Lleol i godi digon o dai cymdeithasol sydd felly'n chwyddo costau tai yn annaturiol. Mae'r banciau'n elwa gan fod angen morgeisi anferthol ar bobl i brynu cartrefi. Tra bo landlordiaid yn gyfoethog ar rhenti swmpus.

### 3 ... filiau hurt egni a gwasanaethau

Y gwir yw bod cwmniau amlgenedl yn ennill elw afresymol ac erchyll ar ein traul ni.

### 4 ... ..... bron dorri'r Gwasanaeth Iechyd

Mae mudwyr yn cyfrannu'n sylweddol at gynnal ein gwasanaeth iechyd er gwaethaf polisiau'r Llywodraeth i beidio a'i gyllido'n ddigonol.

### 5 ......... fod trais yn erbyn merched a genethod

Dynion sy'n gyfrifol am drais gan fwyaf. Does dim tystiolaeth ystadegol bod cymunedau mudol fymryn tebycach o droseddu na'r boblogaeth gyffredinol.

### 6 ......ymyrraeth filwrol dramor gan Brydain

Ymosododd Prydain ar Iwgoslafia, Syria, Irac, Palesteina, Libya ac Affganistan yn y cyfnod diweddar. Mae rhyfel yn achosi i bobl anghenus ffoi dramor.

### 7 ..... fod diffyg undod

Mae gwladgarwyr go iwan yn gwybod i'r dim mai mewn undod mae nerth. I ymladd dros swyddi gwell, tai a gwasanaethau cyhoeddus mae rhaid inni ddod at ein gilydd. Mae'r rheini sydd am ein gwahanu yn weision i'r cyfoethog a'r pwerus, os y gwyddan nhw neu ddim.

YBG
Y BLAID GOMWNYDDOL